YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 35
GORFFENNAF 2011

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bûm ar dair taith ddiddorol a bendithiol iawn. Roedd dwy ohonynt yn deithiau cerdded a'r drydedd yn daith mewn bws.Dyma i chi flas ohonynt.

Ym mis Mai aeth criw da ohonom ar Daith y Crynwyr o gwmpas ardal Dolgellau o dan arweiniad hynaws Miss Catherine James. Nid yn unig y bu'r daith hon yn fodd inni ddysgu am hanes Cymdeithas y Cyfeillion yn Sir Feirionydd ond cawsom gyfle hefyd i ymweld â rhai o'r mannau pwysig hynny yn hanes y Crynwyr yn y rhan yma o Gymru. Ymhlith y rhain oedd mynwent y Crynwyr, adfeilion cartref un o aelodau blaenllaw y Gymdeithas sef Dorti Owen yn Newisbren Uchaf, yn ogystal â Bryn Mawr, sef cartref Rowland Ellis, y prif arweinydd a gafodd ei erlid am ei ffydd nes ei orfodi i ymfudo i'r Uniol Daleithiau. Er gwaethaf y cawodydd o law cawsom ddiwrnod arbennig a bu llawer ohonom yn dwyn i gof ddarnau o nofel hanesyddol Marion Eames, *Y Stafell Ddirgel,* sy'n adrodd hanes erledigaeth y Crynwyr yn ardal Dolgellau.

Yna, ar gychwyn mis Mehefin, bu naw ohonom yn dilyn ôl traed Mari Jones o Lanfihangel y Pennant i'r Bala a chael cyfle i gofio am yr ymdrech aruthrol a wnaeth hi er mwyn prynu Beibl gan Thomas Charles. Cerddodd Mari, pan oedd hi ond yn bymtheg mlwydd oed, wyth milltir ar hugain yn droednoeth dros fryn a dôl. Wrth ddilyn llwybrau hyfryd iawn a syfrdanu at brydferthwch Sir Feirionydd ar daith digon hamddenol dros ddau ddiwrnod, cawsom gyfle i gofio am ei hymdrech aruthrol i gyrraedd y Bala mewn un diwrnod. Tipyn o gamp!

Rhyw bythefnos yn ddiweddarach ar Sul y Pentecost digon gwlyb ac oer aeth llond bws ohonom i ddathlu pen-blwydd yr Eglwys drwy gynnal oedfa yn Soar y Mynydd. Do, roedd y tywydd yn siomedig ond cawsom oedfa fendithiol yng nghwmni'n gilydd i ddathlu dyfodiad yr Ysbryd Glân i'n plith a the parti i ddilyn ym Mlaenpennal.

Afraid dweud imi fwynhau'r teithiau yn fawr! Braf oedd cael treulio amser yng nghwmni aelodau Bethel a Horeb, ac aelodau eraill o eglwysi'r cylch, a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. O edrych yn ôl ar y teithiau hyn roedd yna un llinyn arbennig yn rhedeg trwy'r dair ohonynt. Buont yn fodd i'n hatgoffa am ymdrechion dewr Cristnogion ddoe: dioddefodd y Crynwyr yn ardal Dolgellau erledigaeth gas a chreulon; cynilodd Mari Jones geiniogau prin am sawl blwyddyn cyn mentro i'r Bala ar daith hir i brynu Beibl iddi hi ei hun; a brwydrodd aelodau Soar y Mynydd i gynnal oedfaon ym mhob tywydd heb gysuron cyflenwad trydan a gwres canolog. A'r hyn oedd yn sail i'w holl hymdrechion oedd eu cariad tuag at eu Gwaredwr.

O ystyried profiadau'r Crynwyr, Mari Jones ac aelodau Soar rhaid i ninnau gydnabod gyda diolchgarwch bob rhyddid, rhwyddineb a moethusrwydd sydd gennym i addoli heddiw. Nid oes angen inni boeni am erledigaeth. Digon rhwydd heddiw yw sicrhau copi o'r Beibl a hynny mewn sawl fersiwn, heb sôn am yr esboniadau dirifedi sydd ar gael i'n cynorthwyo i ddehongli'r Gair. Diolchwn am wres, golau a seddau cyfforddus Horeb a Bethel sydd yn ein cynorthwyo i ymlonyddu wrth agosáu gerbron gorsedd gras. Ie, mawr yw ein braint a bydded i holl ymdrechion Cristnogion ddoe ein hysgogi ninnau i ymdrechu o'r newydd ac i ddangos gwir werthfawrogiad o holl drysorau ein ffydd.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MISOEDD GORFFENNAF-AWST 2011

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Mair Evans	
3 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn & Sue Hughes
10 Gorffennaf 10.30yp	Oedfa Deuluol : Gweinidog	
17 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Bregethu: Gweinidog	Gofal y Te:
24 Gorffennaf 10.30yb	Oedfa Arbennig yng nghwmi Rhiannon Williams (Gweler isod)	
31 Gorffennaf 10.30yb	Oedfa Bregethu: Gweinidog	
7 Awst 10.00yb a 6.00yh SEION	Y Parchedig Casi Jones	
14 Awst 10.00yb a 6.00yh BETHEL	Y Parchedig Ddr Terry Edwards	
21 Awst 10.00yb a 6.00yh MORFA	Y Parchedig Eifion Roberts	
28 Awst 10.00yb a 6.00yh SEION	Y Br. Rhodri Glyn	
4 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Gofal y Cymun:

I'CH DYDDIADUR

4 Gorffennaf: Cinio Bara Caws yng Nghanolfan Sant Paul (Eglwys Santes Gwenffrewi yn trefnu)
9 Gorffennaf: Taith Cymdeithas y Penrhyn i Sir y Fflint - enwau i Ceris
13 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
22 Gorffennaf: Barbeciw Horeb yn Stablau Sian am 6.30yh.
26 Gorffennaf: Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
27 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
10 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys (Horeb yn gyfrifol am weini)
24 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
5 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch Horeb gyda'r Parchedig Nan Powell-Davies, yr Wyddgrug

LLOFFION

Dymuniadau gorau i Mrs Mair Evans sydd wedi cael triniaeth ar ei llygad ym Mronglais.
Llongyfarchiadau i Mrs Wendy Reynolds am ennill Gwobr Mentor a Chefnogi cyd-wirfoddolwyr gyda CAVO.
Pen-blwydd Hapus iawn i Mrs Minnie Williams, Glan Seilo a Sir Fôn a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar y 10fed o Orffennaf.
Dymuniadau gwresocaf i'r canlynol a fydd yn priodi yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst:
Rhian ac Iwan; Nerys ac Iwan Bryn; Lowri a Tom.
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu y diweddar Gwyn Thomas, Maes Seilo. Daearwyd ei weddillion yn y fynwent yn ddiweddar.
Oedfa Arbennig yng Nghwmni Rhiannon Williams: Mae Rhiannnon yn cwblhau'r radd PhD Ym Mhrifysgol Morgannwg drwy wneud astudiaeth o'r berthynas sy'n bodoli rhwng capeli Cymraeg, Cymdogaeth a Pherfformiad. Fel rhan o'i gwaith ymchwil fe ddaw atom i roi perfformiad a fydd yn seiliedig ar ei phrofiadau a'i hatgofion o fynd i'r capel. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn fe fydd Rhiannon yn ein cynorthwyo i greu perfformiad i ddathlu ein treftadaeth.
Oedfaon Tregerddan: A fyddech yn barod i gynorthwyo gyda chynnal oedfa yn Nghartref Nhregerddan? Pe baech yn barod i ddarllen o'r Ysgrythur, offrymu gweddi, cyflwyno myfyrdod byr neu ymuno â grwp canu byddem yn falch iawn o glywed gennych. Rhowch wybod i'r Gweinidog.
Diolch i Ceris am drefnu'r daith i Soar y Mynydd.Er gwaethaf y tywydd cawsom fendith yng nghwmni'n gilydd.
Dathlu 80 mlynedd ers agor y Festri: Eleni ym mis Awst byddwn yn dathlu 80 mlynedd ers agor Festri Horeb. Fel rhan o'r dathlu byddwn yn cynnal barbeciw ar nos Wener, 22ain o Orffennaf i godi arian tuag at achos da. Diolch i Sandra a fydd yn coginio. Tocynnau £5. Dewch â salad a phwdin i rannu. Os bydd y tywdd yn anffafriol mae 'na le i gysgodi a diolch i Sian am roi caniatâd inni ddefnyddio'r stablau.
Cystadleuaeth Arlunio i'r Plant: Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth arlunio i blant Horeb fel rhan o ddathliad pen-blwydd y festri. Dyma'r dasg: Tynnwch lun o blant yn cael hwyl yn y festri. Y beirniad gwadd fydd Mrs Ceri Williams. Dewch â'ch gwaith i'r festri erbyn 19fed o Orffennaf. Gwobrwyir yn ystod noson y barbeciw. Pob hwyl ar yr arlunio!